Cymwysterau Cymru
Cynllun Busnes 2017/18

Cynnwys

1. Cymwysterau Cymru 3
1.1. Cyflwyniad 3
1.2. Ein Diben 3
2. Yr Amgylchedd Presennol 4
3. Blaenoriaethau Gweithredol (2017/18) 5
3.1. Cyflwyniad a Chyd-destun 5
3.2. Blaenoriaeth 1 – Darparu'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â Chymwysterau Cyffredinol 6
3.3. Blaenoriaeth 2 – Darparu'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â Chymwysterau Galwedigaethol 7
3.4. Blaenoriaeth 3 – Darparu'r agweddau rheoleiddiol craidd ar ein gwaith 8
3.5. Blaenoriaeth 4 – Ymgysylltu â'r system gymwysterau yng Nghymru a'i chefnogi... 9
3.6. Blaenoriaeth 5 – Parhau i ddatblygu ein galluoedd a'n hadnoddau corfforaethol 10
4. Cyllid a Gwariant Arfaethedig (2017/18) 11
5. Edrych Ymlaen 12
6. Monitro ac Adolygu 12
7. Dolenni defnyddiol 12

1. Cymwysterau Cymru

1.1. Cyflwyniad

Cymwysterau Cymru yw'r rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru ac ymgymerwyd â'n swyddogaethau rheoleiddiol yn weithredol ym mis Medi 2015.

2017/18 yw ein hail flwyddyn weithredol lawn ac wrth i ni ddechrau'r cyfnod hwn, gwnawn hynny â phrofiad y deunaw mis diwethaf ac egni a brwdfrydedd gwirioneddol i barhau i ddatblygu ein gwaith. Rydym wedi cyflawni rhai pethau arwyddocaol dros y flwyddyn ddiwethaf: mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y cynllun hwn.

Mae'r cynllun busnes hwn ar gyfer 2017/18 yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac maent wedi'u sefydlu yng nghyd-destun y dirwedd cymwysterau bresennol a'n cyflawniadau blaenorol. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cymeradwyo gan ein Bwrdd. Cawsant eu datblygu gan ein staff a'u llywio gan safbwyntiau'r rhai sy'n gweithredu neu'n cefnogi ein system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth sydd gennych, yn enwedig gan y byddwn yn cwblhau ein cynlluniau tymor hwy yn ystod 2017/18.

1.2. Ein Diben

Fel rheoleiddiwr annibynnol, mae gennym ddau brif nod:

1 – Sicrhau bod cymwysterau (a'r system gymwysterau yng Nghymru) yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;

2 – Hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Golyga hyn ein bod yn rhoi'r dysgwr yn ganolog i'n gweithgareddau. Golyga hefyd fod cyfrifoldebau arnom i edrych dros y system gymwysterau gyfan i sicrhau ei bod yn gweithio er budd dysgwyr; gan gymryd camau gweithredu neu gynghori eraill i wneud hynny yn ôl yr angen.

2. Yr Amgylchedd Presennol

Wrth inni gynllunio ar gyfer ein hail flwyddyn weithredol lawn, gwnawn hynny mewn amgylchedd lle ceir lefel uchel o ddiddordeb gwleidyddol a diddordeb cyhoeddus ym myd addysg o hyd.

Mae gwahaniaethau'n parhau rhwng polisïau addysg Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dyma'r flwyddyn gyntaf pan fydd myfyrwyr yng Nghymru yn dilyn cymwysterau newydd a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru yn achos llawer o bynciau TGAU a Safon Uwch. Mae newidiadau wedi digwydd yn Lloegr hefyd, ac mae newidiadau ar y gweill yng Ngogledd Iwerddon, sy'n cynnwys cefnu ar y graddau A*-G presennol. Mae'r ffaith ein bod yn rhannu'r brand TGAU a Safon Uwch yn golygu y rhoddir pwys arbennig ar sicrhau bod rheoleiddwyr pob gwlad yn cydweithio'n effeithiol i gynnal safonau a hyder y cyhoedd yn y cymwysterau. Mae cydberthnasau gwaith da wedi cael eu datblygu ac mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ar waith.

Gan edrych ymhellach i'r dyfodol, yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i arwain gwaith i ddiwygio'r cwricwlwm. Mae Cymwysterau Cymru yn cydweithio â gweithgorau amrywiol ac wedi ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer cymwysterau. Rydym wedi nodi ac wedi dechrau cynllunio meysydd ymchwil a all helpu gyda'r gwaith hwn. Mae'n bwysig bod unrhyw newidiadau i gymwysterau yn ategu dulliau addysgu, a bod y newidiadau'n cael eu rheoli'n ofalus.

Yn Lloegr, mae'n debygol y bydd y Cynllun Sgiliau yn cael effaith fawr ar farchnad Cyrff Dyfarnu'r DU. Mae'n anochel y bydd y bwriad presennol i strwythuro cymwysterau 'technegol' ar ffurf pymtheg llwybr a thrwyddedu un corff dyfarnu i ddarparu pob llwybr yn lleihau'r farchnad i'r cyrff hynny na chânt eu penodi. Bydd newidiadau i'r Polisi Prentisiaethau a'r newid i drefn lle cynhelir mwy o asesiadau terfynol yn cael effaith hefyd. Byddwn yn monitro'r effaith ar gyrff dyfarnu yn ofalus ac ar ddewisiadau i ddysgwyr yng Nghymru, gan gydnabod pwysigrwydd cludadwyedd. Byddwn yn parhau i weithredu ein Strategaeth Alwedigaethol a'n Hadolygiadau Sector ond byddwn yn cadw datblygiadau yn Lloegr mewn cof wrth ystyried opsiynau ac argymhellion.

O safbwynt newidiadau deddfwriaethol yng Nghymru, mae Cymwysterau Cymru yn disgwyl y caiff ei restru maes o law mewn rheoliadau sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg, ac y caiff ei restru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym hefyd yn rhagweld y caiff rheoliadau eu hystyried i gadarnhau hyd a lled ein pwerau i gyflwyno cosbau ariannol a throsglwyddo statws 'rheoleiddiwr priodol' (o dan y Ddeddf Cydraddoldebau) i ni oddi wrth Lywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro effaith pleidlais y DU i adael yr UE ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig yn y DU.

3. Blaenoriaethau Gweithredol (2017/18)

3.1. Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae blaenoriaethau gweithredol 2017/18 yn adeiladu ar gynllun y llynedd, er enghraifft, mae pwyslais y swyddogaethau corfforaethol yn newid o adeiladu i aeddfedu ein galluoedd, mae'r strategaeth cymwysterau galwedigaethol yn newid o ddatblygu'r strategaeth i weithredu'r strategaeth, ac mae adborth gan randdeiliaid yn dylanwadu fwyfwy ar weithgareddau i gefnogi'r system gymwysterau yng Nghymru.

Mae pum blaenoriaeth weithredol ar gyfer 2017/18:

1. Darparu'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â Chymwysterau Cyffredinol;
2. Darparu'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â Chymwysterau Galwedigaethol;
3. Darparu'r agweddau rheoleiddiol craidd ar ein gwaith;
4. Ymgysylltu â'r system gymwysterau yng Nghymru a'i chefnogi;
5. Parhau i ddatblygu ein galluoedd a'n hadnoddau corfforaethol.

3.2. Blaenoriaeth 1 – Darparu'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â Chymwysterau Cyffredinol;

Fel rheoleiddiwr, ein blaenoriaeth yw sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal. Mae brandiau TGAU a Safon Uwch yn bwysig i ddysgwyr, cyflogwyr a phrifysgolion a'n gwaith ni yw gweithio gyda rheoleiddwyr eraill er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal yn gyffredinol er gwaethaf y mân wahaniaethau rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn gyfrifol am oruchwylio pa mor dda mae'r system gymwysterau yn gweithio. Yn hyn o beth, byddwn yn edrych yn fanylach ar effeithiolrwydd y cymwysterau diwygiedig newydd. Byddwn hefyd yn ystyried yr effaith ar ddysgwyr ac athrawon. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar faterion fel cofrestru cynnar ac ailgofrestru, y dull o gynnal safonau a chyfleoedd i wella hyder o ran marcio. Byddwn hefyd yn adolygu effeithiolrwydd y Dystysgrif Her Sgiliau a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru.

Ein cyflawniadau yn 2016/17	Ein cynlluniau ar gyfer 2017/18
• Gwnaethom gwblhau'r cam cymeradwyo terfynol ar gyfer y cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd erbyn 31 Mawrth 2017, fel y cynlluniwyd, fel eu bod yn barod i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2017; • Gwnaethom sefydlu Gweithgor Bagloriaeth Cymru er mwyn monitro cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd yn dilyn ein hadolygiad gweithredu; • Gwnaethom sefydlu Grŵp Llywio Sgiliau Hanfodol er mwyn monitro cynnydd a nodi unrhyw bryderon; • Gwnaethom roi arian grant i'r pedwar corff dyfarnu sy'n darparu Sgiliau Hanfodol er mwyn eu helpu i gyflwyno tasgau a phrofion cychwynnol; • Gwnaethom gomisiynu gwaith i adolygu model dylunio ac asesu Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru; • Gwnaethom gwblhau rhaglen fonitro helaeth ar gyfer cyfres arholiadau'r haf a'r gaeaf.	Byddwn yn: • Goruchwylio'r gwaith o bennu a chynnal safonau priodol ym maes cymwysterau cyffredinol; • Monitro gwaith i gyflwyno cyfres arholiadau'r haf a'r gaeaf (cymwysterau etifeddol a diwygiedig); • Monitro effeithiolrwydd cyffredinol cymwysterau diwygiedig; • Gwerthuso effaith y diwygiadau i gymwysterau.

3.3. Blaenoriaeth 2 – Darparu'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â Chymwysterau Galwedigaethol;

Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni ein strategaeth cymwysterau galwedigaethol. Eleni, bydd hynny'n cynnwys ehangu ein cynllun monitro i gynnwys pynciau sy'n denu nifer fawr o ymgeiswyr ym maes Cymorth Cyntaf, Diogelwch Bwyd a Sgiliau Hanfodol Cymru. Yn yr haf, byddwn yn dyfarnu contract er mwyn i un neu fwy o gyrff dyfarnu ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a fydd yn barod i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2019. Gyda'r gyfres newydd hon, gallwn ddatblygu llwybrau dilyniant sy'n atgyfnerthu sgiliau'r gweithlu yn y sector datganoledig hwn. Byddwn yn gweithio ym mhob rhan o'r system i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu cyflwyno'n effeithiol, gan ddysgu gwersi o werthusiad o effaith ein gweithdai ar sgiliau asesu. Yn yr hydref, byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad o'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig. Byddwn yn ystyried y canfyddiadau ac yn ymgynghori ar unrhyw gamau gweithredu arfaethedig. Bydd canfyddiadau ein hadolygiad o'r sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn cael eu cyhoeddi yn 2018.

Ein cyflawniadau yn 2016/17	Ein cynlluniau ar gyfer 2017/18
• Gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth cymwysterau galwedigaethol, gan egluro ein cynlluniau ar gyfer Adolygiadau Sector a sut y byddem yn monitro cymwysterau galwedigaethol; • Gwnaethom ddechrau ein rhaglen o waith monitro penodol, gan ddechrau gydag adolygiad cynhwysfawr o gymwysterau Cymorth Cyntaf; • Gwnaethon ddechrau ein Hadolygiadau o'r Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig a'r Sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu; • Gwnaethom ymgynghori ar yr opsiynau i gyflawni ymrwymiadau'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ers hynny, rydym wedi penderfynu cyfyngu ar y ddarpariaeth ac rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith i benodi corff [cyrff] dyfarnu i ddatblygu'r cymwysterau newydd. Rydym wedi gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr y sector i ddatblygu cynnwys pwnc drafft ar gyfer y cymwysterau newydd hyn.	Byddwn yn: • Rhoi'r rhaglen monitro cymwysterau galwedigaethol ar waith ar gyfer 2017/18; • Cynnal Adolygiadau Sector (Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig a TGCh); • Gweithredu ymrwymiadau'r adolygiad o Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.

3.4. Blaenoriaeth 3 – Darparu'r agweddau rheoleiddiol craidd ar ein gwaith

Rydym yn canolbwyntio ar gyhoeddi ein fframwaith a'n dull rheoleiddiol a fydd yn cydbwyso anghenion Cymru ag egwyddorion rheoleiddio da. Byddwn yn ymgynghori ar ein cynnig i gyflwyno'r canlyniadau rheoleiddiol arfaethedig. Byddwn hefyd yn adolygu ein Hamodau Cydnabod Safonol ac yn cwblhau ein hamserlen datblygu ac adolygu polisïau. Yn ogystal â'n hadolygiad blynyddol o Ddatganiadau Cydymffurfio cyrff dyfarnu, byddwn hefyd yn dechrau ar raglen o archwiliadau ac ymweliadau â chyrff dyfarnu ac yn gwella'r ffordd rydym yn rheoli'r wybodaeth sydd gennym.

Ar ôl adolygu ein dull dynodi, byddwn hefyd yn cwblhau ein polisi a'n gweithdrefnau dynodi.

Ein cyflawniadau yn 2016/17	Ein cynlluniau ar gyfer 2017/18
• Gwnaethon ddechrau adolygiad llawn o'r broses ddynodi; • Gwnaethom gynnal adolygiad llawn o'r fframwaith rheoleiddiol y gwnaethom ei fabwysiadu oddi wrth Lywodraeth Cymru; • Gwnaethom lunio Canlyniadau Rheoleiddiol drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ebrill 2017; • Gwnaethom gynnydd da wrth gwblhau ein cyfres o bolisïau – gan gynnwys cyhoeddi'r Polisi Ymgynghori, y Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig, y Polisi Cydnabod a'r Polisi Apeliadau Rheoliadol; • Gwnaethom gytuno ar broses ar gyfer y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi.	Byddwn yn: • Datblygu ac yn cyfathrebu ein fframwaith a'n dull rheoleiddiol; • Monitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu â'n Hamodau Cydnabod; • Datblygu ein systemau a'n gweithdrefnau rheoleiddiol ymhellach; • Prosesu ceisiadau i gydnabod ac ildio cymwysterau.

3.5. Blaenoriaeth 4 – Ymgysylltu â'r system gymwysterau yng Nghymru a'i chefnogi

Ein blaenoriaeth yw gweithio'n effeithiol gyda'r system gymwysterau yn ei chyfanrwydd yng Nghymru. Byddwn yn cyflawni ein cynllun ymgysylltu ar y cyd â'n rhanddeiliaid. Bydd ein tîm cymorth canolfannau yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ag ysgolion, colegau a darparwyr dysgu eraill a'u cefnogi, gan roi cyngor i ategu uniondeb y system gymwysterau ledled Cymru.

Byddwn yn gwneud ymchwil er mwyn darparu tystiolaeth i gefnogi ein penderfyniadau a llywio ein gwaith cynllunio tymor hwy – mae hyn yn cynnwys gwaith i helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru. Byddwn yn dechrau datblygu ein safbwynt ar gontinwwm iaith ac opsiynau asesu. Eleni hefyd, cynhelir ail gam yr astudiaeth hydredol o hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau.

Ein cyflawniadau yn 2016/17	Ein cynlluniau ar gyfer 2017/18
• Gwnaethom recriwtio ein tîm o saith ymchwilydd ac ystadegydd; • Gwnaethom gyhoeddi ymchwil i hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau; • Gwnaethom gomisiynu sawl prosiect ymchwil sy'n gysylltiedig â'n hadolygiadau o'r sector cymwysterau galwedigaethol a'n hadolygiad o Fagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau; • Gwnaethom ddatblygu dull mwy cyson o ymgysylltu â dysgwyr a chasglu data; • Gwnaethon ddiwygio a chyhoeddi ein Polisi Cymwysterau Rheoleiddiol Cymraeg a Dwyieithog • Gwnaethom weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gadarnhau'r adnoddau dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg y byddant yn eu cynnig i gefnogi'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd; • Gwnaethom lansio QiW ar 1 Ebrill; • Gwnaethom gynnal ein Fforwm Cyrff Dyfarnu Blynyddol cyntaf; • Rydym wedi datblygu ein gwefan a dau gylchlythyr rheolaidd.	Byddwn yn: • Rheoleiddio ar gyfer cenedl ddwyieithog (gan gynnwys rheoli cyllid grant); • Gwella ein sianelau digidol ac atgyfnerthu ein gwaith ymgysylltu allanol; • Cefnogi ysgolion, colegau a darparwyr dysgu eraill (canolfannau); • Llywio (drwy ymchwil) ein gwaith blaengynllunio ar gyfer cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

3.6. Blaenoriaeth 5 – Parhau i ddatblygu ein galluoedd a'n hadnoddau corfforaethol

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein galluoedd corfforaethol, gan anelu at lefel uwch o aeddfedrwydd. Eleni, rydym yn bwriadu datblygu Strategaeth y Gweithlu a fydd yn ein helpu i fuddsoddi ymhellach yn ein pobl i'r dyfodol. Byddwn yn datblygu ein prosiect Casglu Data a Chyhoeddiadau Ystadegol fel y gallwn ddechrau casglu data'n uniongyrchol gan gyrff dyfarnu er mwyn cefnogi ein cyhoeddiadau a gweithgareddau ymchwil. Byddwn hefyd yn paratoi ar gyfer Safonau'r Gymraeg a fydd yn gymwys i'n sefydliad.

Ein cyflawniadau yn 2016/17	Ein cynlluniau ar gyfer 2017/18

• Gwnaethom gyhoeddi ein Cyfrifon Blynyddol cyntaf;
• Gwnaethom lunio ac adolygu ein cynlluniau parhad busnes;
• Gwnaethom gyhoeddi ein polisïau adnoddau dynol sy'n ystyriol o deuluoedd;
• Rydym wedi sefydlu ein prosesau defnyddio a rheoli perfformiad staff;
• Gwnaethom gynnal ein Harolwg Staff cyntaf gyda chyfradd ymateb o 96% a mynegrif ymgysylltu o 76%;
• Gwnaethom ddarparu hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg 'Kick off Cymraeg' i staff ac aelodau'r Bwrdd;
• Cawsom achrediad diogelwch gwybodaeth Cyber Essentials Plus;
• Gwnaethom gyflawni ein cynllun caffael gan ddyfarnu 56 o gontractau a gwnaethom gyhoeddi ein polisi caffael;
• Gwnaethom gwblhau pum archwiliad mewnol gydag un radd sicrwydd sylweddol, tair gradd sicrwydd boddhaol ac un radd sicrwydd cyfyngedig;
• Rydym wedi adolygu ein trefniadau llywodraethu;
• Rydym wedi datblygu ein prosesau rheoli risg ac wedi cytuno ar awydd y Bwrdd i fentro.
	Byddwn yn:
	
	• Parhau i ddatblygu aeddfedrwydd pob un o'r swyddogaethau cyllid a'r gwasanaethau corfforaethol, er mwyn helpu a herio'r sefydliad i ddefnyddio'i adnoddau yn y ffordd orau bosibl gan gynnal cydymffurfiaeth a diogelu ein henw da yn y meysydd canlynol:
	
	  • Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol
	  • Llywodraethu Corfforaethol
	  • Cyfleusterau
	  • Cyllid
	  • Adnoddau Dynol
	  • TG
	  • Caffael
	
	• Datblygu Strategaeth y Gweithlu;
	
	• Cyflawni'r prosiect casglu data a chyhoeddiadau ystadegol;
	
	• Sicrhau ein bod yn barod i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

4. Cyllid a Gwariant Arfaethedig (2017/18)

Mae Cymwysterau Cymru wedi pennu cyllideb o £8.217m ar gyfer 2017/18. Mae hyn yn cynnwys y dyraniad grant blynyddol o £8.042m gan Lywodraeth Cymru i dalu costau gweithredol, yn ogystal â £175k o gronfeydd wrth gefn mewnol i dalu costau un-tro sy'n gysylltiedig â phrosiectau penodol.

Ar lefel gryno rhagwelir y bydd ein gwariant fel a ganlyn:

Budget Area	**2017-18 Budget £'000**
Pay Costs	4,509
Grants	1,118
Programme Budgets	1,022
Running Costs	1,568
Total	**8,217**

Mae'r diagram isod yn amlinellu ein gwariant arfaethedig ymhellach:



5. Edrych Ymlaen

Yn ystod y flwyddyn, ar y cyd â'n Bwrdd, byddwn yn adolygu ein Blaenoriaethau Strategol ac yn ystyried ein datblygiad tymor hwy o fewn y system gymwysterau sy'n datblygu yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys monitro newidiadau yn ein hamgylchedd gweithredu a nodir ar dudalen 4 (Yr Amgylchedd Presennol).

Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol er mwyn ei gwneud yn Gynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol.

Mae ein meysydd ffocws tymor hwy i'w gweld yn ein Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol a Chynlluniau Strategol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol. Gellir gweld y rhain ar ein gwefan.

6. Monitro ac Adolygu

Rydym yn monitro cynnydd yn erbyn ein cynlluniau yn rheolaidd, gan gyflwyno adroddiadau bob mis i'n Bwrdd Rheoli mewnol ac adroddiadau bob chwarter i'r Bwrdd. Ar ddiwedd y flwyddyn, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o gyflawniadau'r flwyddyn yn ein cyfrifon diwedd y flwyddyn (ar gyfer yr un cyfnod â'r cynllun hwn, sef y flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018). Byddwn hefyd yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch ein gweithgareddau a'n cyflawniadau yn ein hadroddiad blynyddol (ar gyfer y flwyddyn academaidd o fis Medi 2017 i fis Awst 2018). Rydym yn cyflwyno ein hadroddiad blynyddol er mwyn i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad graffu arno – mae hyn yn rhan o'n gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

7. Dolenni defnyddiol

Gweler isod ddolenni i rai dogfennau defnyddiol a all roi mwy o gyd-destun i'r Cynllun Busnes hwn:

- Gwefan Cymwysterau Cymru
- Cyfrifon Blynyddol Cymwysterau Cymru 2015/16
- Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2015/16
- Strwythur Bwrdd Cymwysterau Cymru
- Strwythur Gweithredol Cymwysterau Cymru